



LLYFRAUaRHAGOR
BOOKS&BEYOND
Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu | Library & Learning Resources

LLAWLYFR CYFEIRNODI

IEEE

PCYDDS: Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu

Croeso

Croeso i argraffiad diwygiedig 1af Llawlyfrau Cyfeirnod Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant!

Mae cyfeirnod i'n fanwl gywir yn sgîl hanfodol i'w ddysgu yn ystod eich astudiaethau, a lluniwyd y llawlyfrau hyn i'ch cefnogi yn eich dysgu ac i helpu i'ch arwain drwy'r hyn sy'n gallu ymddangos yn eithaf dryslyd ar brydiau. Mae'r llawlyfrau cyfeirnod ar gael i'r pedair arddull a ddefnyddir yn y Drindod Dewi Sant, gydag awgrymiadau ar gyfer adnoddau pellach, manwl a chynghor ynghylch cael cefnogaeth gan eich Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd.

Hoffem ddiolch i'r staff academaidd a gymerodd ran am eu hamser a'u mewnbwn wrth ddatblygu'r llawlyfrau hyn, gan obeithio eu bod yn darparu adnodd defnyddiol.

Rydym yn falch o dderbyn adborth ar y canllawiau hyn, a fydd yn cael eu hadolygu. Cysylltwch â library@uwtsd.ac.uk gydag unrhyw awgrymiadau.

Tîm Cyswllt Academaidd, Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu, y Drindod Dewi Sant

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Sut dylwn i ddefnyddio'r llawlyfr hwn?	3
Beth yw cyfeirnodï?.....	3
Sut dylwn i osgoi llên-ladrad?.....	4
Oes gennych unrhyw gyngor cyn i mi ddechrau fy ngwaith?	4
Sut caf i help a chefnogaeth bellach?	4
Cyfeirnodï IEEE: Yr Hanfodion.....	5
Rhestr gyfeiriadau	5
Sut dylwn i ddyfynnu, aralleirio a chrynhoi yn fy ngwaith?.....	6
Dyfyniadau.....	6
Dyfyniad hir - 3 llinell neu fwy	6
Dyfyniad byr - llai na 3 llinell.....	6
Aralleirio a chrynhoi	6
Sut dylwn i gyfeirnodï mathau penodol o adnoddau?	7
1. Llyfrau ac e-lyfrau	7
2. Erthyglau cyfnodolion.....	9
3. Rhyngrwyd	10
4. Cynadleddau	12
5. Traethodau hir a thraethodau ymchwil	14
6. Adroddiadau a llawlyfrau	15
7. Cyhoeddiadau cyfreithiol a llywodraeth	16
8. Gwybodaeth wyddonol a thechnegol.....	17
9. Ffilm, teledu a radio	19
10. Meddalwedd, apiau a gemau cyfrifiadurol	21
laith	23
Meddalwedd Cyfeirnodï.....	23

Cyflwyniad

Argymhellir pedair arddull gyfeirnod i'w defnyddio ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant:

- APA (Cymdeithas Seicolegol America)
- Harvard
- IEEE (Sefydliad y Peirianwyr Trydanol ac Electroneg)
- MHRA (Cymdeithas Ymchwil y Dyniaethau Modern)

Cewch wybod pa safon gyfeirnod y dylech ei defnyddio drwy edrych yn eich Llawlyfr Rhaglen. Mae'r holl lawlyfrau cyfeirnod ar gael ar-lein: <https://uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/hanfodion-myfyrwyr/llawlyfrau-cyfeirnod/>

Mae fersiwn byrrach, hwylus i gyfeirio ato'n gyflym hefyd ar gael ar-lein neu yn eich llyfrgell agosaf yn y Drindod Dewi Sant.

Sut dylwn i ddefnyddio'r llawlyfr hwn?

Diben y llawlyfr hwn yw darparu ar eich cyfer egwyddorion sylfaenol cyfeirnod, a'ch rhoi ar ben ffordd i ddeall popeth am gyfeirnod. Mae'r llawlyfr yn darparu enghreifftiau o sut i greu dyfyniadau yn y testun a chyfeiriadau ar gyfer rhai o'r ffynonellau mwyaf cyffredin y byddech efallai'n dod ar eu traws yn ystod eich astudiaethau.

Dangosir enghraifft o sut y dylai'r cyfeiriad ymddangos yn eich testun yn y blwch hwn.

Dangosir enghraifft o sut y dylai'r cyfeiriad ymddangos yn eich rhestr gyfeiriadau neu lyfryddiaeth yn y blwch hwn.

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r llawlyfr hwn fod yn gynhwysfawr a cheir enghreifftiau ychwanegol, a chyfarwyddyd ar wefan yr IEEE:

IEEE Journal Titles and Abbreviations:

<http://ieeauthorcenter.ieee.org/wp-content/uploads/Journal-Titles-and-Abbreviations.pdf>

IEEE Editorial Style Manual:

<https://ieeauthorcenter.ieee.org/wp-content/uploads/IEEE-Editorial-Style-Manual.pdf>

IEEE Citation Guidelines:

<https://iee-dataport.org/sites/default/files/analysis/27/IEEE%20Citation%20Guidelines.pdf>

Beth yw cyfeirnod?

Wrth lunio aseiniad academiaidd, disgwylir i chi gydnabod gwaith pobl eraill drwy ei gyfeirnod mewn fformat cydnabyddedig a chyson. Bydd angen hefyd i chi ddarparu manylion yr adnoddau rydych wedi'u darllen ar gyfer eich aseiniad. Mae nifer o resymau pam mae hyn yn angenrheidiol:

- Dangos ehangder yr ymchwil rydych wedi ymgymryd ag ef.
- Ychwanegu hygredd academiaidd at eich dadleuon.
- Galluogi darllenwyr i ddod o hyd i'r ffynonellau rydych wedi'u defnyddio yn eich gwaith.
- Cydnabod gwaith pobl eraill ac osgoi llên-ladrad damweiniol.

Sut dylwn i osgoi llên-ladrad?

Mae cyfeirnodî'n gywir hefyd yn golygu eich bod yn osgoi llên-ladrad, sef honni mai chi a luniodd waith rhywun arall. Gellir dod o hyd i ddiffiniad cyflawn y Brifysgol o lôn-ladrad yn rheoliadau'r Brifysgol: <https://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/rheoliadaur-brifysgol-canllawiau-ar-gyfer-myfyrwyr/>

Gall llên-ladrad fod yn fwriadol neu'n ddamweiniol; heb gyfeirnodî cywir, mae'n bosibl llên-ladrata gwaith rhywun arall yn ddamweiniol. Felly, bydd deall sut a phryd i gyfeirnodî'n eich helpu i osgoi hyn yn hawdd.

Oes gennych unrhyw gyngor cyn i mi ddechrau fy ngwaith?

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pa arddull gyfeirnodî mae'ch Ysgol yn ei hargymell cyn dechrau. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn eich Llawlyfr Rhaglen.
- Cadwch gofnod o'r ffynonellau rydych yn eu darllen wrth fynd.
- Byddwch yn gyson yn y cofnodion a gadwch ac yn y ffordd y byddwch yn cyfeirnodî.
- Rhowch ddigon o amser i chi wirio'ch gwaith.
- Ceisiwch roi'ch hun yn lle'r darllenydd. Meddyliwch: "os oeddwn yn dymuno dod o hyd i ffynhonnell y wybodaeth yma, fyddwn i'n gallu?"
- Os nad ydych yn siŵr, ceisiwch eglurhad neu ofyn am help!

Sut caf i help a chefnogaeth bellach?

Cewch sesiwn ar gyfeirnodî yn eich dosbarth yn ystod blwyddyn gyntaf eich cwrs, a bydd gweithdai rheolaidd a chyfleoedd i alw heibio hefyd ar gael ar hyd y flwyddyn academaidd drwy ein rhaglen Sgiliau Gwybodaeth: <https://uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/infoskills/>. Dilynwch @UWTSDLib ar Facebook, Twitter neu Instagram i gael y wybodaeth ddiweddaraf am bryd ac ymhle y bydd y rhain yn cael eu cynnal.

Mae Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd ar gyfer pob maes academaidd, a'i rôl yw eich cefnogi gydag amryw o sgiliau gwybodaeth ar hyd eich cwrs. Gallwch weld pwy yw'ch Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd a gwneud apwyntiad yma: <https://uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/hanfodion-myfyrwyr/cwrdd-ach-llyfrgellydd-cyswllt-academaidd/> neu drwy alw yn eich llyfrgell agosaf yn y Drindod Dewi Sant.

Mae cymorth ar gyfer cyfeirnodî hefyd ar gael gan Wasanaethau Myfyrwyr, ac mae sesiynau galw heibio ar sgiliau astudio ar gael ar draws y campysau.

Dylai myfyrwyr mewn Sefydliadau Partner holi yn y llyfrgell yn eu sefydliad cartref i gael gwybod pa safon y dylent ei defnyddio a ble i gael cymorth.

Cyfeirnod I IEEE: Yr Hanfodion

Mae arddull gyfeirnod IEEE yn system rifol, a ddefnyddir yn bennaf ym maes Cyfrifiadura ac mae'n cynnwys:

Cyfeiriad yn y testun

Defnyddir y rhain wrth gyfeirio at ffynhonnell gwybodaeth o fewn testun eich aseiniad i ddangos o ble y daeth. Dylid cydnabod ffynonellau gyda rhif cyfeiriad mewn cromfachau sgwâr [], gan barhau mewn trefn esgynnol ar hyd eich aseiniad, oni bai eich bod yn cyfeirio at ffynhonnell y cyfeiriwyd ati'n flaenorol, pryd dylech ailadrodd yr un rhif. Os ydych yn dyfynnu'n uniongyrchol o'r ffynhonnell, neu'n cyfeirio at dablau, graffau ac ati penodol, dylech ddefnyddio rhif cyfeiriad gwahanol bob tro a dangos y rhifau tudalen/ffigur perthnasol yn eich rhestr gyfeiriadau. Dylid gosod rhif y cyfeiriad yn y testun yn syth ar ôl y cyfeiriad ac o fewn yr atalnodi, e.e.

...fel y dangosir yn [3].

Cyfeiriwch at nifer o ffynonellau drwy gyfuno'ch rhifau cyfeiriad, e.e.

I gael rhagor o fanylion gweler [2], [8], [11].

Defnyddiwch enw awdur i gyflwyno ffynhonnell, e.e.

Fel y'i dangoswyd gan Jones [16]...

Os oes mwy na chwe awdur, defnyddiwch et al. ar ôl yr awdur cyntaf, e.e.

Mae Witherspoon et al. [7] yn cynnig tystiolaeth...

Rhestr gyfeiriadau

Pwrpas y cyfeiriad yn y testun yw eich cyfeirio at fanylion llawn y cyhoeddiad mewn rhestr gyfeiriadau neu lyfryddiaeth ar ddiwedd eich gwaith. Dylai alluogi unrhyw ddarllynydd i ddod o hyd i'ch ffynhonnell wreiddiol. Yn arddull IEEE dylai'ch rhestr gyfeiriadau fod mewn trefn rifol (nid yn ôl yr wyddor) a dylid ei fformatio fel a ganlyn:

- Aliniwch gyfeiriadau i'r chwith
- Dylai cofnodion fod mewn bylchiad sengl, gyda bylchiad dwbl rhyngddynt
- Nodwch rif y cofnod wrth yr ymyl chwith, wedi'i amgáu mewn cromfachau sgwâr
- Mewnosodwch destun y cofnodion

Weithiau gall eich tiwtor hefyd ofyn am lyfryddiaeth. Mae llyfryddiaeth yn rhestr o'r holl ffynonellau rydych wedi'u darllen ar gyfer eich aseiniad, os ydych wedi cyfeirio atynt yn eich testun neu beidio ac felly mae'n fwy cynhwysfawr na rhestr gyfeiriadau. Os nad ydych yn siŵr p'un sydd ei angen, gofynnwch i'ch darlithydd.

Sut dylwn i ddyfynnu, aralleirio a chrynhoi yn fy ngwaith?

Dyfyniadau

Ystyr dyfyniad yw eich bod yn cymryd yr union eiriau a ddefnyddir gan awdur arall ac yn eu gosod yn eich gwaith. Dylid defnyddio dyfyniadau uniongyrchol yn gynnil ac ond pryd maent yn berthnasol i'r ddadl rydych yn ei gwneud yn eich gwaith.

Dyfyniad hir - 3 llinell neu fwy

Fformat:

- Crëwch baragraff ar wahân.
- Mewnosodwch y paragraff.
- Nid oes angen dyfynodau.
- Nodwch y cyfeiriad yn y testun ar ei ôl [mewn cromfachau sgwâr].

Enghraifft:

Mae twf y cyfryngau cymdeithasol a hygyrchedd y rhyngrwyd wedi arwain at gynnydd cyflym mewn dinasyddiaeth ddigidol. Fel y noda Bradley:

Over the last decade the internet has slowly but surely morphed into a resource that allows individuals to share whatever they wish, from their innermost thoughts to photographs of their suppers. Moreover, they can do this with virtually no technical background knowledge or skill [1].

Dyfyniad byr - llai na 3 llinell

Fformat:

- Cynhwyswch ef yng nghorff y testun.
- Amgawch ef mewn dyfynodau dwbl.
- Nodwch y cyfeiriad yn y testun ar ei ôl [mewn cromfachau sgwâr].

Enghraifft:

Mae Bradley yn pwysleisio y gall dinasyddion digidol modern gymryd rhan yn y gymuned ar-lein gyda "virtually no technical background knowledge or skill" [1].

Aralleirio a chrynhoi

Aralleirio yw pan fyddwch yn cymryd syniad rhywun arall ac yn ei roi yn eich geiriau eich hun. Crynhoi yw pan fyddwch yn rhoi trosolwg cryno o syniad rhywun arall. Dylech roi cyfeiriad hyd yn oed wrth aralleirio, i gydnabod y ffynhonnell. Byddai angen nodi rhif tudalen ond os ydych yn cyfeirio at ardal neu ran benodol iawn o'r testun. Bydd angen i chi ddilyn eich barn eich hun a ydy hyn yn angenrheidiol. Rhowch eich hun yn lle'r darllynydd: ydych chi'n cyfeirio at waith neu gysyniad cyfan neu at ran fach iawn ohono.

Enghraifft:

Noda Bradley [1] fod twf a hygyrchedd y rhyngrwyd a'i phlatfformau amrywiol ar y cyfryngau cymdeithasol wedi'i gwneud yn haws nag erioed i unigolion ag ychydig iawn o wybodaeth TG ddod yn ddinasyddion digidol a chymryd rhan mewn gymuned ar-lein gynyddol.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

1. Llyfrau ac e-lyfrau

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at lyfrau lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r awdur
- Teitl: is-deitl (mewn italig)
- Argraffiad (os ydy'n berthnasol)
- Dinas cyhoeddi: Cyhoeddwr
- Blwyddyn cyhoeddi
- Rhifau'r bennod, adran neu dudalen os ydy'n berthnasol

1.1 Llyfr â hyd at chwe awdur

[2]

- [2] R. Hayes, G. Pisano, and S. Wheelwright, *Operations, Strategy, and Technical Knowledge*, Hoboken: Wiley, 2007.

1.2 Llyfr â mwy na chwe awdur

[3]

- [3] W. K. Chen, *et al. Linear Networks and Systems*, Belmont: Wadsworth Press, 2003.

1.3 Pennod mewn llyfr â golygydd

[4]

- [4] E. D. Lipson and B. D. Horwitz, "Photosensory Reception and Transduction," in *Sensory Receptors and Signal Transduction*, J. L. Spudich and B. H. Satir, Eds., New York: Wiley-Liss, 2001, ch.7, pp.1-64.

1.4 Llyfr â sefydliad fel awdur

Yn yr achos hwn, ymdrinnir ag enw'r sefydliad fel yr awdur.

[5]

- [5] Council of Biology Editors, *Scientific Style and Format: The CBE Manual for Authors, Editors, and Publishers*, 6th ed., Cambridge: Cambridge University Press, 2006.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

1.5 E-lyfrau

Dylech ymdrin ag e-lyfr yn union yr un ffordd â llyfr printiedig ond nodwch [E-book] ar y diwedd er eglurder.

[6]

[6] L. Bass, P. Clements, and R. Kazman, *Software Architecture in Practice*, 2nd ed. Reading: Addison Wesley, 2003. [E-book]

1.6 Pennod mewn e-lyfr â golygydd

Yn ôl Rizzoni [7]...

[7] G. Rizzoni, "Electrical engineering," in *Mechatronic Systems, Sensors, and Actuators*, R. H. Bishop, Ed., London: CRC Press, 2008, sec.II, ch.11, pp.11-36. [E-book]

1.7 Cyfeiriad eilaidd

Cyfeiriad eilaidd yw pryd mae'r ffynhonnell gwybodaeth rydych yn ei defnyddio wedi crynhoi neu gyfeirio at waith neu ymchwil awdur arall, ac rydych eisiau defnyddio hyn yn eich gwaith chi.

Mae arddull gyfeirnodu IEEE yn argymhell y dylech bob amser geisio dod o hyd i'r ffynhonnell wreiddiol a'i chyfeirnodu, ond os na allwch, fe'ch cynghorir i gyfeirio at y ffynhonnell gwybodaeth rydych wedi'i darllen, ond gwnewch hi'n eglur mai cyfeiriad eilaidd ydyw, e.e.

Fel y'i cyfeiriwyd yng ngwaith arloesol William Smith [1] ar Rwydweithiau Cyfrifiadurol, priodolir dynodi "a significant skills gap in the area of cybersecurity" i Mark Barnett.

Yma, dylai [1] gyfeirio at lyfr William Smith rydych wedi'i ddarllen, ac nid at lyfr Mark Barnett mae yntau'n ei ddyfynnu.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

2. Erthyglau cyfnodolion

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at erthyglau mewn cyfnodolion, papurau newydd a chylchgronau lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth

Printiedig:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r awdur
- "Teitl yr erthygl"
- Teitl y cyfnodolyn, papur newydd neu gylchgrawn (mewn italig)
- Cyfrol
- Rhifyn (os ydy'n hysbys)
- Ystod y tudalennau
- Mis, diwrnod a blwyddyn cyhoeddi wedi'u talfyrru

Electronig (mae angen hyn os ydy ar gael AR-LEIN YN UNIG ac nid yn brintiedig):

Yr uchod ynghyd â

- [Online]
- Available: URL neu DOI (Dynodydd Gwrthrych Digidol) os ydy ar gael.
- Dyddiad y'i cyrchwyd mewn cromfachau sgwâr

[8]

- [8] M. T. Kimour, "Deriving objects from use cases in real-time embedded systems," *Information and Software Technology*, vol. 47, no. 8, p. 533, June 2005.

NEU

- [8] M. T. Kimour, "Deriving objects from use cases in real-time embedded systems," *Information and Software Technology*, vol. 47, no. 8, p.533, June 2005. [Online]. Available: ProQuest, <http://www.umi.com/proquest/> . [Accessed November 12, 2017].

2.1 Erthyglau cyfnodolion â dau i chwe awdur

[9]

- [9] K. A. Nelson, R. J. Davis, D. R. Lutz, and W. Smith, "Optical generation of tuneable ultrasonic waves," *Journal of Applied Physics*, vol. 53, no. 2, pp.1144-1149, Feb. 2002.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

2.2 Erthyglau cyfnodolion â mwy na chwe awdur

[10]

[10] S. Shamshirband *et al.* "Sensorless estimation of wind speed by adaptive neuro-fuzzy methodology," *Int. Jnl. of Elect. Power and Energy Syst.*, vol. 62, pp.490-495, Nov. 2014.

2.3 Erthygl mewn papur newydd

[11]

[11] T. Wallace, "Skills shortage lifts cybersecurity workers' pay by 10 percent," *The Daily Telegraph*, p.5, Nov. 10, 2017.

2.4 Erthygl cylchgrawn

[12]

[12] S. Krumdieck, "Transition engineering: planning and building the sustainable world," *Futurist*, pp.35-41, Jul. 1, 2013.

3. Rhyngrwyd

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at y rhyngrwyd lynu at y fformat cyffredinol isod. Bydd elfennau i'w cynnwys yn amrywio, yn ddibynnol ar y math o wybodaeth rydych yn cyfeirio ati. Gweler yr adran ar lyfrau (1) i gael enghreifftiau o sut i gyfeirnodu e-lyfrau, yr adran ar gyfnodolion (2) am gyfeiriadau at erthyglau ar y rhyngrwyd ac ati.

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r awdur
- "Teitl y dudalen, postiad neu fideo"
- Teitl y wefan, blog/blog fideo (mewn italig)
- Rhif paragraff os ydy'n berthnasol
- Dyddiad postio (mis, diwrnod, blwyddyn wedi'u talfyrru)
- [Online]
- Available: URL
- Dyddiad y'i cyrchwyd mewn cromfachau sgwâr

Nid yw llawer o wefannau'n nodi awdur. Yn yr achos hwn defnyddiwch y sefydliad/awdur corfforaethol.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

3.1 Gwefan ag awdur

[13]

[13] J. Geraldts, "Sega Ends Production of Dreamcast," *vnunet*, Jan. 31, 2007. [Online]. Available: <http://nli.vnunet.com/news/1116995>. [Accessed Sept. 12, 2007].

3.2 Gwefan â sefydliad fel awdur

[14]

[14] Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, "Cyfadran Pensaernïaeth, Cyfrifiadura a Pheirianeg," *UWTSO*, 2017. [Online] Available: <http://www.uwtsd.ac.uk/face/> [Accessed Jan. 3, 2018].

3.3 . Blog neu flog fideo

[15]

[15] M. Smith, "Engineering Hub leading the way in plastics recycling," *School of Engineering Blog*, Dec. 20, 2013. [Online] Available: <http://engineering.blogs.lincoln.ac.uk/2013/12/20/engineering-hub-leading-the-way-in-plastics-recycling/> [Accessed Jan. 3, 2018].

3.4 Fideo / ffilm ar wefan rannu - e.e. YouTube

[16]

[16] TED Talks, "Beware Online Filter Bubbles", *YouTube*, May, 2, 2011. [Online] Available: <https://www.youtube.com/watch?v=B8ofWfx525s> [Accessed Jan. 3, 2018].

3.5 Podlediad

[17]

[17] D. Johns, Speaker, "An engineering adventure", *Uni. of Bath Public Lecture Podcasts*, Oct. 26, 2011. [Online] Available: <http://www.bath.ac.uk/podcast/itunes/itunes-rss/124-podbath-DanJohns.mp3> [Accessed Jan. 3, 2018].

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

4. Cynadleddau

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at gynadleddau lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

Printiedig:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Awdur papur neu olygydd trafodion, blaenlythrennau a chyfenw (defnyddiwch et al. os oes mwy na chwech)
- "Teitl y papur"
- Teitl y trafodion (mewn italig)
- Teitl y gynhadledd
- Dyddiad a lleoliad y gynhadledd
- Man cyhoeddi a chyhoeddwr (trafodion a gyhoeddwyd)
- Dyddiad cyhoeddi (trafodion a gyhoeddwyd)
- Rhifau'r sesiwn neu'r cyflwyniad os ydy'n berthnasol

Electronig:

Yr uchod ynghyd â

- [Online]
- Available: URL neu DOI (Dynodydd Gwrthrych Digidol) os ydy ar gael.
- Dyddiad y'i cyrchwyd mewn cromfachau sgwâr

4.1 Trafodion cynhadledd llawn

[18]

[18] T. J. van Weert and R. K. Munro, Eds., *Informatics and the Digital Society: Social, ethical and cognitive issues*, Open Conference on Social, Ethical and Cognitive Issues of Informatics and ICT, July 22-26, 2002, Dortmund, Germany. Boston: Kluwer Academic, 2003.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

4.2 Papur cynhadledd unigol a gyhoeddwyd yn y trafodion

[19]

[19] S. Christensen and F. Oppacher, "An analysis of Koza's computational effort statistic for genetic programming," in *Genetic programming: EuroGP 2002: Proceedings of the 5th European Conference on Genetic Programming, April 3-5, 2002, Kinsdale, Ireland*. Berlin: Springer, 2002. pp.182-91.

4.3 Papur cynhadledd unigol ar gael ar-lein

[20]

[20] K. Silius, A. Tervakari, O. Pirttila, J. Paukkeri, and T. Makela, "A tool for evaluating social media enhanced learning environments," in *Global Engineering Education Conference (EDUCON), 2014, Istanbul, Turkey*, pp.152 - 157. [Online] Available: IEEEXplore, DOI: 10.1109/EDUCON.2014.6826082 [Accessed Jan. 3, 2018].

4.4 Papur cynhadledd unigol (heb ei gyhoeddi)

[21]

[21] F. Georgiades, J. Warminski and M. Cartmell, "Nonlinear modal analysis of an L-shape beam structure," presented at the 4th International Conference on Localization, Energy Transfer and Nonlinear Normal Modes in Mechanics and Physics, Jul. 1-5, 2012, Haifa, Israel, session 6.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

5. Traethodau hir a thraethodau ymchwil

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at draethodau hir a thraethodau ymchwil lynu at y fformatau cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol. Sicrhewch fod gennych ganiatâd cyn defnyddio deunydd sydd heb ei gyhoeddi yn eich gwaith. Os ydy'r traethawd ymchwil ar gael ar-lein dylech nodi'r URL i helpu i ddod o hyd iddo.

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

Printiedig:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r awdur
- "Teitl y traethawd ymchwil"
- MSc thesis NEU PhD dissertation
- Adran (os ydy'n hysbys)
- Prifysgol
- Dinas y Brifysgol
- Blwyddyn cyflwyno

Electronig:

Yr uchod ynghyd â

- [Online]
- Available: URL neu DOI (Dynodydd Gwrthrych Digidol) os ydy ar gael.
- Dyddiad y'i cyrchwyd mewn cromfachau sgwâr

5.1 Msc

[22]

[22] D. Williams, "Shirdi Sai Baba Online: devotion in cyberspace," MSc thesis, University of Wales Trinity Saint David, Lampeter, 2012. [Online] Available: <http://repository.uwtsd.ac.uk/id/eprint/432> [Accessed Jan. 3, 2018].

5.2 PhD

[23]

[23] N. Van der beek, "From practice to theory: computational studies on fluorescence detection and laser therapy in dermatology," PhD dissertation, School of Applied Computing, University of Wales Trinity Saint David, Swansea, 2017. [Online] Available: <http://repository.uwtsd.ac.uk/id/eprint/819> [Accessed Jan. 3, 2018].

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

6. Adroddiadau a llawlyfrau

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at adroddiadau a llawlyfrau lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

Printiedig:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r awdur (os ydynt ar gael)
- "Teitl yr adroddiad" NEU Deitl y Llawlyfr (mewn italig)
- Argraffiad (os ydy'n berthnasol)
- Cwmni neu Sefydliad
- Dinas
- Rhif yr adroddiad (os ydy ar gael)
- Blwyddyn cyhoeddi

Electronig:

Yr uchod ynghyd â

- [Online]
- Available: URL
- Dyddiad y'i cyrchwyd mewn cromfachau sgwâr

6.1 Adroddiad ymchwil

[24]

[24] D. Corbus and M. Meadors, "Small wind research turbine," Nat. Renewable Energy Laboratory, Boston, NREL/TP-500-38550, 2005.

6.2 Adroddiad ymchwil ar gael ar-lein

[25]

[25] "Shut down or restart? The way forward for computing in UK schools," The Royal Society, London, 2012. [Online] Available: <https://royalsociety.org/~media/education/computing-in-schools/2012-01-12-computing-in-schools.pdf> [Accessed Jan. 3, 2018].

6.3 Llawlyfr

[26]

[26] *Motorola Semiconductor Data Manual*, Motorola Semiconductor Products Inc., Phoenix, 1989.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

7. Cyhoeddiadau cyfreithiol a llywodraeth

Rhoddir yr enghreifftiau isod o gyhoeddiadau cyfreithiol yn fformat IEEE. Gall hyn fod yn wahanol i systemau cyfeirnodu, megis Safon Rhydychen ar gyfer Cyfeirio at Awdurdodau Cyfreithiol (OSCOLA), a ddefnyddir mewn nifer o ysgolion y gyfraith yn y DG.

7.1 Deddf Seneddol (Statud)

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd, page or chapter number if applicable]

Mae deddfwriaeth y llywodraeth [27] bellach yn atgyfnerthu'r dull hwn...

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

Printiedig:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Teitl a blwyddyn y ddeddf seneddol (mewn italig)
- Rhif y bennod (os ydy'n berthnasol)
- Dinas cyhoeddi
- Cyhoeddwr
- Dyddiad cychwyn

Electronig:

Yr uchod ynghyd â

- [Online]
- Available: URL
- Dyddiad y'i cyrchwyd mewn cromfachau sgwâr

[27] *Computer Misuse Act 1990*, ch.3, London: TSO, Jun. 29th 1990. [Online] Available: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/18/contents> [Accessed Jan. 3, 2018].

7.2 Papurau Gwyrdd a Gwyn

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

[28]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

Printiedig:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Adran o'r llywodraeth
- "Teitl y papur"
- Dinas cyhoeddi
- Cyhoeddwr
- Rhif y papur (os ydy'n hysbys)

Electronig:

Yr uchod ynghyd â

- [Online]
- Available: URL
- Dyddiad y'i cyrchwyd mewn cromfachau sgwâr

[28] Department for Trade and Industry, "Meeting the Energy Challenge: A White Paper on Energy", London: TSO, CM7124, May 2007.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

7.3 Cyhoeddiadau'r llywodraeth

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

Printiedig:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Adran o'r llywodraeth
- "Teitl y Cyhoeddiad"
- Dinas cyhoeddi (os ydy'n hysbys)
- Cyhoeddwr (os ydy'n hysbys)
- Rhif y cyhoeddiad (os ydy'n hysbys)
- Mis a blwyddyn cyhoeddi wedi'u talfyrru

Electronig:

Yr uchod ynghyd â

- [Online]
- Available: URL
- Dyddiad y'i cyrchwyd mewn cromfachau sgwâr

[29]

[29] Department of Health, "2017/18 Data Security and Protection Requirements", DDP/13920, Oct. 2017. [Online] Available: <https://www.gov.uk/government/publications/data-security-and-protection-for-health-and-care-organisations> [Accessed Jan. 4, 2018].

8. Gwybodaeth wyddonol a thechnegol

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at wybodaeth wyddonol a thechnegol lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

8.1 Safon Dechnegol

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Teitl y safon (mewn italig)
- Rhif y safon
- Blwyddyn cyhoeddi

[30]

[30] *Shunt Power Capacitors*, IEEE Standard 18-2012, 2013.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

8.2 Patent

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r dyfeisiwr
- "Teitl y patent"
- Gwlad lle cofrestrwyd y patent
- Rhif y patent
- Dyddiad rhyddhau (mis, diwrnod, blwyddyn wedi'u talfyrru)

[31]

[31] J. Dyson, "Multi cyclone vacuum cleaner," G.B. Patent 2 337 274, Oct. 9, 2001.

8.3 Graffiau, ffigurau a thablau

Os byddwch yn atgynhyrchu unrhyw graffiau, ffigurau neu dablau o ffynhonnell arall, dylech ddarparu pennawd i gyd-fynd â nhw fel eich cyfeiriad yn y testun, gan gydnabod y ffynhonnell. Wedyn dylai'ch rhestr gyfeiriadau gynnwys manylion cyfeirio llawn sy'n briodol i'r math o ffynhonnell rydych yn ei defnyddio.

Pennawd yn y testun:

- Teitl y graff, ffigur neu dabl
- Rhif cyfeiriad y ffynhonnell
- Rhif tudalen
- Rhif y graff, ffigur neu dabl

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Ffynhonnell y cyfeiriad yn unol â'r canllawiau priodol a nodir yn y ddogfen hon.

Opsiynau chwilio yn Google [32]

[32] P. Bradley, *Expert Internet Searching*, 5th Ed., London: Facet Publishing, 2017, p.44, Fig.3.1.

Os ydych yn cyfeirio at graff, ffigur neu dabl, heb ei atgynhyrchu, mae angen cynnwys dim ond y cyfeiriad yn y testun arferol [32] yng nghorff eich gwaith, fel arfer.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

9. Ffilm, teledu a radio

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at ffilm a theledu lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

9.1 Darllediad teledu neu radio

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r cyflwynydd
- Cyfrifoldeb (e.e. Presenter)
- Teitl y rhaglen (mewn italig)
- [Television broadcast] neu [Radio broadcast]
- Dinas y cwmni cynhyrchu (os ydy'n hysbys)
- Cwmni cynhyrchu (os ydy'n hysbys)
- Sianel darlledu
- Dyddiad darlledu

Electronig:

Yr uchod ynghyd â

- [Online]
- Available: URL
- Dyddiad y'i cyrchwyd mewn cromfachau sgwâr

[33]

[33] D. MacIntyre, Presenter, *Panorama: What Facebook Knows About You*, [Television broadcast], London: BBC One, May 8, 2017. [Online] Available: <http://www.bbc.co.uk/programmes/b08qgbc3> [Accessed Jan. 9, 2018].

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

9.2 Cyfweiliad teledu neu radio

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r cyfweilai
- Cyfrifoldeb (interviewee)
- Blaenlythrennau a chyfenw'r cyfwelydd (os ydy'n hysbys)
- Cyfrifoldeb (interviewer)
- Teitl y rhaglen (mewn italig)
- [Television broadcast] neu [Radio broadcast]
- Dinas y cwmni cynhyrchu
- Cwmni cynhyrchu (os ydy'n hysbys)
- Sianel darlledu
- Amser y cyfweiliad
- Dyddiad y cyfweiliad/darllediad

Electronig:

Yr uchod ynghyd â

- [Online]
- Available: URL
- Dyddiad y'i cyrchwyd mewn cromfachau sgwâr

[34]

[32] C. Brown, Interviewee, and H. Edwards, Interviewer, *BBC News*, [Television broadcast], London: BBC News Channel, 17:36, Apr. 15, 2010.

9.3 Ffilm ar DVD

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r cyfarwyddwr
- Cyfrifoldeb (Director)
- Teitl y ffilm (mewn italig)
- [DVD]
- Dinas y cwmni cynhyrchu
- Cwmni cynhyrchu
- Blwyddyn cyhoeddi

[35]

[35] D. Fincher, Director, *The Social Network*, [DVD], LOS Angeles: Sony Pictures, 2011.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

10. Meddalwedd, apiau a gemau cyfrifiadurol

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at feddalwedd, apiau a gemau cyfrifiadurol lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

10.1 Meddalwedd

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Teitl y feddalwedd
- Fersiwn
- [Software]
- Dinas cyhoeddi
- Cyhoeddwr neu ddatblygydd
- Blwyddyn cyhoeddi

[36]

[36] EndNote, Version X8.1, [Software], Philadelphia: Clarivate Analytics, 2017.

10.2 Apiau

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Teitl yr ap
- Fersiwn
- Dinas cyhoeddi
- Datblygydd
- Blwyddyn cyhoeddi
- [App]
- Ar gael: URL
- Dyddiad y'i cyrchwyd mewn cromfachau sgwâr

[37]

[37] Spotify Music, Version 8.4.28 for iOS, London: Spotify Ltd., 2017. [App]
 Available: <https://itunes.apple.com/gb/app/spotify-music/id324684580?mt=8>
 [Accessed Jan. 9, 2018].

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

10.3 Gemau cyfrifiadurol

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Teitl y gêm
- [CD-ROM] neu [Software]
- Dinas (neu wlad) cyhoeddi
- Cyhoeddwr neu ddatblygydd
- Blwyddyn cyhoeddi

[38]

[38] The Hobbit: The prelude to the Lord of the Rings. [CD-ROM], United Kingdom: Vivendi Universal Games, 2003.

Iaith

Fel arfer, dylid llunio cyfeiriadau yn eu hiaith wreiddiol, waeth pa iaith rydych chi'n ysgrifennu ynddi eich hun e.e.

[1] B. Rappin, "Une herméneutique du texte taylorien: Exception, coopération, amitié," *Revue Française de Gestion*, vol. 44, no. 276, pp.33-45, 2018.

Fodd bynnag, os ydynt hefyd mewn sgript wahanol, dylent barhau yn eu hiaith wreiddiol ond cael eu darparu yn y sgript mae'ch gwaith eich hun yn ei defnyddio h.y. yn fwyaf tebygol, sgript Ladin oni bai eich bod yn ysgrifennu'ch aseiniad mewn sgript Tsieineaidd neu Islamaidd e.e.

[2] 鷲田清一, 京都の平熱 : 哲学者の都市案内, 東京: 講談社, 2007.

dylid ei newid i:

[2] K. Washida, *Kyōto no heinetsu: tetsugakusha no toshi annai*, Tōkyō: Kōdansha, 2007.

Meddalwedd Cyfeirnod

Pan fyddwch wedi mestroli hanfodion cyfeirnod gan ddefnyddio'r llawlyfr hwn a'r adnoddau ategol a argymhellir, gallwch ystyried symud ymlaen at feddalwedd ar-lein. Mae'r Llyfrgell yn rhoi mynediad i **RefWorks**, rhaglen ar-lein sy'n eich helpu i gofnodi'ch ffynonellau mewn un lle ac yn rhoi cymorth i chi eu cyfeirnod. Cewch fynediad ati ar wefan y llyfrgell, gan ddefnyddio'ch manylion mewngofnodi yn y Drindod Dewi Sant: <https://uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/hanfodion-myfyrwyr/refworks/>

Hefyd mae amrywiaeth o ddewisiadau cod agored megis Zotero a Mendeley ar gael sy'n gallu darparu gweithrediadau tebyg, fodd bynnag sylwer nad yw'r Drindod Dewi Sant yn rhoi cymorth ar gyfer defnyddio'r platfformau hyn nac yn darparu unrhyw feddalwedd gysylltiedig ar offer TG y Brifysgol.

Er gall meddalwedd gyfeirnod fod yn offeryn defnyddiol dros ben ar gyfer trefnu'ch ymchwil, nid yw bob amser yn gywir 100% ac ni ddylai gymryd lle datblygu'r sgiliau hyn eich hun. Byddai'n ddoeth cael dealltwriaeth o gyfeirnod cyn i chi symud at ddefnyddio un o'r platfformau hyn; mae'n hanfodol gwirio'ch cyfeiriadau am gywirdeb, yn enwedig yr atalnod a phriflythrennau.

Fodd bynnag, os teimlwch eich bod yn barod i ddefnyddio meddalwedd gyfeirnod neu os hoffech ddarganfod rhagor amdani, defnyddiwch y tiwtorialau ar-lein sydd ar gael ar wefan RefWorks, neu cysylltwch â'ch Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd a fydd yn hapus i'ch cefnogi.